

AMLINELLIAD

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Wern Ddu

Cyflwyniad

Bydd Cyngor Cymuned Derwen yn gweinyddu taliad gwirfoddol flynyddol gan Triodos Renewables (Wern Ddu) Ltd., perchnogion Fferm Wynt Wern Ddu. Telir yr arian i gyfrif arbennig a ddelir gan Cyngor Cymuned Derwen er budd y rhai hynny sy'n byw o fewn terfynau Cyngor Cymuned Derwen. Bydd y cyllid ar gael am y cyfnod y bydd y Fferm Wynt yn weithredol ac fe fydd yn cael ei addasu yn flynyddol yn ôl Indecs Pris Manwerthu (Retail Price Index) y mis cyn yr un y bydd taliad yn cael ei wneud. Y swm sydd ar gael yn 2018 yw £4000.00 Gall pobl leol brynu cyfranddaliadau Triodos Renewables ac elwa o'r cynnydd mewn pris cyfranddaliad a derbyn dididend blynyddol. Gellir cael gwybodaeth am brynu cyfranddaliadau Triodos Renewables drwy ffonio 0800 0562761.

1. Beth yw'r Amcanion?

Bwriad y Gronfa yw hyrwyddo diddordeb yn y gymuned ac uno bobl, gwella safon byw ac hyrwyddo lles pobl, a magu cymundeau bywiog a chynladwy.

2. Pwy yw'r Ymddiriedolwyr?

Aelodau cyfredol Cyngor Cymuned Derwen yw'r ymddiriedolwyr.

3. Pwy a all wneud cais i'r Gronfa?

Dyfarnir cymorthdal yn ôl y canlynol:

- a) Rhaid i unigolion a chymdeithasau sy'n gwneud cais fyw neu fod wedi'w lleoli o fewn y ward a weinyddir gan Cyngor Cymuned Derwen,
- b) Ni ellir cyllido:
 - i) unrhyw gynllun a'i bwrpas yw i wrthgyferbynnu â diddordeb Triodos Renewables(Wern Ddu) Ltd (neu'r Gweithredydd) yn Fferm Wynt Wern Ddu,
 - ii) unrhyw gynllun sy'n debygol o gael ei wrthwynebu gan ganran sylweddol o'r gymuned,
 - iii) unrhyw gynllun neu weithred a ystyrir yn gyfrifoldeb statudol Cyngor Cymuned Derwen, Cyngor Sir Ddinbych neu unrhyw gorff Llywodraethol,
 - iv) unrhyw fusnes preifat,
 - v) unrhyw eitem sydd wedi'w brynu cyn i'r cymorthdal gael ei gynnig yn swyddogol,
 - vi) unrhyw letygarwch neu bwrpas gwleidyddol, crefyddol, neu adloniadol.
- c) Rhaid i'r unigolion neu fudiadau sy'n derbyn cymorthdal gydnabod Fferm Wynt Wern Ddu fel ffynhonell unrhyw gyllid.

4. Gwneud y Cais

- a) Gwahoddir ceisiadau (sy'n **gorfod** cael eu cyflwyno ar y ffurflen gais swyddogol), gan unigolion, grwpiau cyfansoddedig, grwpiau anffurfiol neu un neu fwy o gymdeithasau/grwpiau yn cyd-weithio.
- b) Gellir cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar daflen atodol.
- c) Ceir ffurflenni cais gan Clerc y Cyngor Cymuned – Mr Gwyn Davies, 11 Maes Caenog, Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AU (01824 750283) neu gellir lawrlwytho oddiar safle ar y wê, www.clawddnewydd.co.uk.
- d) Rhaid i geisiadau ar gyfer 2018 gael ru cyflwyno erbyn dydd Sadwrn 31ain Mawrth 2018.

5. Taliadau

- a) Hysbysir penderfyniadau ynglyn yn ysgrifennedig. Ni fydd y sieciau yn cael ei dosbrthu talu am gwaith, a disgwilir l'r gwaith gael eu gebwlhau erbyn 31ain o Rhagfyr 2018. Bydd angen copia dderbyniadau llofnedig am y gwaith.
- b) Bydd penderfyniadau'r Ymddiriedolwyr ar geisiadau yn **derfynol** – ni fydd modd gwneud apêl.
- c) Mae hi'n debygol y bydd yna fwy o geisiadau nag sydd yna o gymorthdal ar gael mewn unrhyw flwyddyn,
- d) Cyheoddir enwau'r unigolyn/cymdeithasau a ddyfanir cymorthdal i iddynt ar y wefan (gwelir y cyfeiriad uchod) ac ar y hysbysfyrdau lleol.
- e) Gwahoddir yr ymgeiswyr llwyddiannus I gyfarfod o'r Cyngor Cymuned i, ddebyn y siec ac i, arwyddo derbyneb am yr arian. Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gyflwyno derbynebau am y gwaith a wnaed neu eitemau a brynwyd, cyn i daliadau gael eu gwneud. Rhaid i unrhyw arian na warir cyn Rhagfyr 31ain, 2018 gael ei ddychwelyd i Drysorydd/Clerc Cyngor Cymuned Derwen.

6. Cyllid ychwanegol

Mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i'r cymorthdal gael ei ddefnyddio i sicrhau cyllid cyfartal (match funding) er mwyn i'r gymuned elwa i'r eithaf o gyfraniad y fferm wynt.